Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 28AIN EBRILL, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 20 Ebrill 2026)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gareth Tudor Jones

Gwynfor Owen (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts

Angela Russell (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO 5 - 8

MORLO LOUNGE, MAES YR ORSAF, PWLLHELI

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8 Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

9 Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **28 Ebrill 2026** |
| **TEITL:** | **CAIS AM AMRYWIAD O DRWYDDED EIDDO - MORLO LOUNGE, ( Y VENU YN FLAENOROL) MAES YR ORSAF, PWLLHELI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais i amrywio trwydded eiddo ar gyfer Morlo Lounge , Maes yr Orsaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5HG ( a arferir gael ei adnabod fel Y Venu), gan yr ymgeisydd Loungers UK Limited . Mae'r ymgeisydd yn ceisio am amrywiad i drwydded eiddo oedd yn arfer bod yn glwb nos a bwyty trwyddedig hyd yn ddiweddar.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwneud newidiadau strwythurol i'r eiddo; , dileu amodau yr atodlen weithredol yn Atodiad 2 y drwydded bresennol a chynnwys yn Atodiad 2 yr Atodlen Weithredol yr amodau arfaethedig yn adran M y cais.( gweler gopi o'r hysbyseb a'r cais yn yr atodiad )

1.3 Nid yw y cais yn nodi unrhyw newidiadau i'r gweithgareddau trwyddedig y drwydded bresennol, ac fe welir copi o'r drwydded gyfredol yn yr atodiad . Mae'r cais yn nodi oriau agor fel a ganlyn -

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Sul/Sunday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Llun/Monday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Iau/Thursday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Gwener/Friday | 08:00 | - | 03:00 |
| | Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 | - | 04:00 |

1.4 Mae'r drwydded gyfredol yn cynnwys yr hawl i gynnal cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, a pherfformiadau dawns tan 02:45, a 3:45 ar nos Sadwrn/bore Sul; gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos tan 02:30 ( 3:30 nos Sadwrn /fore Sul)a digwyddiadau chwaraeon tan 23:45

1.5 Noder fod yr ymgeisydd wedi datgan y bwriad i'r busnes fod yn canolbwyntio ar werthiant bwyd fel 'Cafe Bar'. Nid oes newid yn oriau y drwydded arfaethedig, ac nid oes gwybodaeth wedi ei dderbyn gyda'r cais o ran yr oriau a fwriedir eu gweithredu. Mae cyfeiriad yn rhan M y cais i atal defnydd y dodrefn yn yr ardal allanol ar ôl 23:00

1.6 Dengys Cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd gyda'r cais fod bwriad ymestyn yr ardal drwyddedig yr eiddo i gynnwys ardal o balmant tu allan i'r eiddo sydd yn cwmpasu 53.3m2 o'r palmant , yn union o flaen yr adeilad ar hyd ochr yr adeilad ar Ffordd y Cob.

1.7 Nid oes gwybodaeth wedi ei dderbyn gan asiant yr ymgeisydd o ran perchnogaeth y darn yma o balmant cyhoeddus; ond deallir fod cais am drwydded adran 115 ar gyfer defnydd dodrefn stryd wedi ei gyflwyno. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad , nid oes cadarnhad wedi ei dderbyn os fydd y drwydded dodrefn stryd yn cael ei ganiatáu, a pha amodau ac oriau fydd ynghlwm os fydd caniatâd.

1.8 Mae bwriad i gynnwys ardaloedd allanol ar ochr maes parcio yr adeilad yn ogystal. Mae'r ardal hon yn cwmpasu 100m2 , ac mae rhan o'r ardal allanol yma wedi bod mewn defnydd gan gwsmeriaid Y Venu yn hanesyddol. Mae llun o'r awyr ac cynllun o'r ardaloedd allanol arfaethedig wedi eu cynnwys yn atodiad yr adroddiad .

1.9 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir System TCC, a bydd recordiadau o droseddau ar gael am 31 diwrnod , ac aelod o staff ar gael sydd yn gallu darparu delweddau oddi ar y system yn ddi-oed ar gais yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig.
- Fe fydd Cofnodion Digwyddiadau yn cael eu cadw ar gyfer cofnodi troseddau, . achosion lle mae cwsmer yn cael ei hebrwng o'r eiddo, cwynion am drosedd ac anrhefn; atafaeliad o gyffuriau neu arfau; gwrthod gwerthiant alcohol ac yn y blaen.
- Ni fydd cwsmeriaid yn cael mynd a diodydd allan gyda hwynt i'r ardal ysmygu
- Fe fydd gwerthiant a chyflenwi alcohol ar gyfer ei yfed yn yr ardal eistedd allanol yn cael ei gyfyngu i rai sydd yn eistedd ar y cadeiriau wrth y byrddau
- Fe fydd yr eiddo yn gweithredu fel Café Bar yn unig gyda gweini wrth y bwrdd.
- Ni fydd bosib defnyddio'r byrddau a chadeiriau allanol ar ôl 23:00.
- Gweithredir polisi Her 25 a rhoddir hyfforddiant i staff ar wirio oedran ac gwirio cardiau adnabod.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Sylwadau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau |
| Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd | Gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd | Sylwadau |

### 3.1 Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Derbyniwyd cadarnhad fod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r cais ar sail y 4 amcan Trwyddedu

- Atal Trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu plant rhag niwed

Nodir pryderon fod ymchwil yn gyson yn dangos fod argaeledd alcohol , gan gynnwys yr oriau gwerthiant alcohol yn dylanwadu yn uniongyrchol ar batrymau yfed alcohol a niwed a achosir gan alcohol. Er fod y busnes yn cael ei ddisgrifio fel 'Café – Bar' gyda pwyslais ar weini bwyd; mynegir pryder fod oriau hwyr y drwydded yn cynyddu'r potensial o niwed a achosir gan alcohol a derbyniadau Ysbyty.

Nodir pryderon ychwanegol oherwydd fod yr ymgeisydd hefyd yn gwneud cais am drwydded dodrefn stryd er caniatáu gwerthiant alcohol i'w yfed tu allan tan 23:00 yr hwyr. Cyfeirir at y ffaith fod y palmant yma yn cael llawer o ddefnydd gan gerddwyr; ac fod cyflwyno llecyn allanol ar gyfer yfed alcohol fel hyn yn cyfyngu gofod cerdded , gyda'r potensial o danseilio Diogelwch cerddwyr, pobl gyda anghenion symud arbennig; gan gynnwys pobl hyn a phlant.

Cyfeirir at Ganllawiau Cenedlaethol sy'n nodi na ddylai gofod masnachu allanol leihau parthau cerdded/mynediad angenrheidiol .

Fe fynegir pryderon hefyd fod ymestyn gofod yfed alcohol i'r tu allan yn cynyddu'r risg o ymddygiad gwrth gymdeithasol , gyda cynnydd mewn aflonyddwch sŵn , ac amlygiad plant a theuluoedd i amgylchiadau lle mae alcohol yn cael ei yfed.

Mae'r ymatebydd yn nodi y dylid craffu y cais yn ofalus, a chynnal asesiadau cynhwysfawr o -

- effaith y datblygiad ar iechyd cyhoeddus a Diogelwch cymunedol
- Diogelwch cerddwyr a mynediad
- Ystyriaethau Diogelu plant yn ogystal a atal trais yn erbyn merched a phlant
- Y potensial i gynyddu niwed a achosir gan alcohol – gan gynnwys adolygu oriau agor y busnes.

3.2 **<u>Heddlu Gogledd Cymru</u>**

Mae'r Heddlu yn cadarnhau nad ydynt yn gwrthwynebu'r cais , ond yn hytrach yn mynegi pryder fod oriau agor y clwb nos oedd ar y safle yn flaenorol yn parhau mewn grym er fod yr ymgeisydd yn nodi'r bwriad i weithredu fel Café - Bar.

Noder fod trwydded hwyr yn cynyddu'r risg o ddigwyddiadau trosedd ac anrhefn, a thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cyfeirir at y ffaith nad oes unrhyw fesurau wedi eu cynnwys yn rhan M y cais o ran Rheolaeth risgiau trosedd ac anrhefn a thrais.

Cyfeirir at y defnydd arfaethedig o'r ardal allanol ar y palmant , a'r ffaith fod yr ardal yn boblogaidd gyda cerddwyr a beicwyr. Noder nad oes sôn am fesurau Rheoli defnydd gwydr yn yr ardal allanol.

3.3 **<u>Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Gwynedd</u>**

Ar sail y diffyg cysondeb rhwng y cais trwyddedu a'r ceisiadau cynllunio cyfredol, ynghyd â'r pryderon ynghylch diogelwch a defnydd tir, mae'r Adran Orfodaeth Cynllunio yn gwrthwynebu'r cais am amrywiad o'r drwydded.

Nodir fod yr ymestyniad arfaethedig i gynnwys ardaloedd allanol ychwanegol sy'n cael eu hymestyn fel rhan o'r datblygiad yn mynd tu hwnt i'r hyn sydd ar hyn o bryd yn gyfreithlon o ran defnydd tir ar y caniatâd cynllunio cyfredol. Mae'r bwriad yn awgrymu bod newid defnydd yn digwydd yn yr ardaloedd hyn; ac fod cais dodrefn stryd wedi ei gyflwyno i leoli byrddau a chadeiriau er pwrpas cynnal gweithgareddau masnachol yn ogystal.

Fe dynnir sylw at y ffaith yn ogystal y gallai dodrefn stryd ar y palmant ar ochr orllewinol yr adeilad ger Ffordd y Cob /Embankment Road leihau gweledadd a diogelwch ger gyffordd prysur , ac mae hyn yn peri pryder penodol.

3.4 **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd**

Cyflwynir sylwadau ar y cais mewn perthynas a'r amcan Trwyddedu o Atal Niwsans cyhoeddus. Mae'r swyddog yn cyfeirio at y cais cynllunio sydd wedi ei gyflwyno ar gyfer gweithredu ar newidiadau strwythurol i'r eiddo gan gynnwys uwchraddio awyriant i'r gegin yn sylweddol ac gosod ffenestri a drws ar ochr orllewinol yr adeilad.

Noder fod gan y newidiadau hyn , ynghyd a'r cynnydd mewn gweithgareddau masnachol a fwriedir ar gyfer ymestyniad i'r ardal allanol drwyddedig y potensial i achosi niwsans sŵn i drigolion cyfagos.

Mae swyddogion yr Uned wedi gofyn am Asesiad Effaith Sŵn i gefnogi 'r cais cynllunio, mewn perthynas a sŵn cwsmeriaid, a sŵn yn tarddu o'r system echdynnu aer .

Noder nad oes unrhyw newid i oriau gweithgareddau trwyddedig yr eiddo - sydd yn caniatáu cerddoriaeth a gwerthiant alcohol tan 02:45 a 03:45, ac felly mae'r newidiadau strwythurol sydd yn destun cais cynllunio cyfredol yn mynd i gael effaith ar ynysiad sŵn yr adeilad.

Fe roddir sylw i'r bwriad i ymestyn yr ardal drwyddedig i'r ardaloedd tu allan gyda'r bwriad i osod byrddau a chadeiriau a gweithredu o dan drwydded palmant , gan gynyddu y potensial o sŵn cwsmeriaid neu sŵn cerddoriaeth i effeithio ar drigolion cyfagos.

Mae'r swyddog yn cydnabod fod yr ymgeisydd yn nodi na fydd y byrddau a chadeiriau yn cael eu defnyddio gan gwsmeriaid ar ôl 23:00 a gofynnir am sicrwydd y bydd hyn yn cael ei amodi ar atodlen weithredol y drwydded, yn ogystal a 'r pwyntiau eraill sydd yn cael ei gynnwys yn rhan M ( rhan Atal Niwsans Cyhoeddus)

Argymhellir fod yr ymgeisydd hefyd yn cytuno i gynnwys 3 amod sŵn ychwanegol a phwrpasol er mwyn rheoli'r risgiau a nodi petai'r y drwydded yn cael ei chaniatáu.

Gweler atodiad yr adroddiad am yr ymatebion llawn a dderbyniwyd gan yr awdurdodau cyfrifol.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd gan yr awdurdodau cyfrifol yn ofalus.
Ystyrir fod y pryderon a amlinellwyd gan yr Awdurdodau Cyfrifol yn rhai dilys; a disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn ymateb yn llawn i'r pryderon hyn cyn y gall y Pwyllgor ddod i benderfyniad .
Ystyrir fod yr argymhellion a wneir gan yr Awdurdodau cyfrifol yn rhai cymesur a rhesymol, ac na fyddent yn cyfyngu ar ffyniant y busnes.

Petai'r Is Bwyllgor yn penderfynu caniatáu y cais - gellir cynnwys yr amodau ychwanegol i gyfarch y pryderon a nodir ar yr atodlen weithredol y drwydded; yn unol â'r hyn a ganiateir o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003.